**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL)**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR CYNLLUNI, RHEOLEIDDIO A THRWYDDEDU CYFFREDINOL (MATERION TRWYDDEDU CYFFREDINOL) - DYDD MAWRTH, 11 CHWEFROR 2020 DYDD MAWRTH, 11 CHWEFROR 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT: B. SUMMERS (CADEIRYDD)

Councillors D. Bevan
G. L. Davies
D. Hancock
W. Hodgins
J. P. Morgan
K. Pritchard
K. Rowson
T. Smith
B. Thomas
B. Willis
L. Winnett

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 2** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Mandy Moore, G. Thomas a D. Wilkshire. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>ADRODDIAD GWEITHGAREDDAU AR GYFER CHWARTER 3 2019/20</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Trwyddedu.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu a Masnachol fod yr adroddiad yn amlinellu gwaith y Tîm Trwyddedu am y trydydd chwarter o 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2019 yng nghyswllt dyletswyddau trwyddedu cyffredinol.<br><br>Nododd y Rheolwr Tîm y derbyniwyd chwe chwyn yn ystod chwarter 3 yng nghyswllt gyrwyr tacsi a chyfeiriodd Aelodau at y crynodeb o gwynion a chanlyniadau a fanylir yn yr adroddiad. Amlinellodd ymhellach y pwyntiau allweddol yng nghyswllt yr Adroddiadau Gweithredol a Rheoli.<br><br>Ar y pwynt hwn gwahoddwyd cwestiynau gan Aelodau.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn am ddangos dulliau adnabod ar gyfer casglwyr metel sgrap, dywedwyd bod yn rhaid dangos bathodynnau adnabod yn ffenestr y cerbyd. Fodd bynnag, dim ond i’r ymgeisydd y rhoddir bathodynnau adnabod ac ni fyddai dull adnabod gan bobl a gyflogir ganddynt.<br><br>Ychwanegodd yr Aelod iddo dderbyn cwynion fod casglwyr metel sgrap wedi mynd i mewn i erddi heb ganiatâd. Awgrymodd y Rheolwr Tîm y dylid hysbysu’r Tîm Trwyddedu am unrhyw gwynion o’r fath er mwyn eu hymchwilio.<br><br>Dilynodd trafodaeth am ddiffyg dull gweithredu aml-asiantaeth i blismona casglwyr metel sgrap yn yr un ffordd â thacsis, masnachwyr stryd ac yn y blaen. Nododd Aelod bwysigrwydd polisi gorfodaeth ar gyfer casglwyr metel sgrap a dywedodd fod | |

ganddynt enghreifftiau o bobl yn tresbasu ar dir preifat i fynd â sgrap.

Dywedodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu a Masnachol mai ychydig o gwynion a dderbynnir am gasglwyr metel sgrap ac y dylai dull gweithredu aml-asiantaeth gynnwys yr Heddlu a Cyfoeth Naturiol Cymru. Ychwanegodd fod fod rhaglen waith y Tîm yn seiliedig ar ddata a thystiolaeth, felly os derbynnir cwynion am gasglwyr metel sgrap yna gellid ystyried ychwanegu'r swyddogaeth hon at raglen waith y Tîm Trwyddedu.

Mewn ymateb i faterion eraill a godwyd am gasglwyr metel sgrap, anogodd y Rheolwr Tîm yr Aelodau i hysbysu'r Tîm Trwyddedu am gwynion a hefyd ofyn i'w hetholwyr roi adroddiad am gwynion er mwyn cofnodi digwyddiadau.

Dywedodd Aelod arall y caiff preswylwyr eu hysbysu i roi gwybod i'r Heddlu am y digwyddiadau hyn a gofynnodd os yw'r Tîm Trwyddedu yn gweithio gyda'r Heddlu gan y credai y byddai'r dystiolaeth hon ar gael ganddynt. Dywedodd y Rheolwr Tîm y cynhelir dialog yn gyson gyda'r Heddlu yn nhermau materion trwyddedu a dywedodd nad oedd yn gwybod am unrhyw gwynion a wnaed yn ddiweddar. Cytunwyd fel pwynt gweithredu y gofynnir i Heddlu Gwent ddynodi os cafodd unrhyw gwynion eu derbyn yn uniongyrchol ganddynt yng nghyswllt y maes gwaith yma.

Ychwanegodd yr Aelod fod preswylwyr yn cael eu hannog i hysbysu'r Heddlu am broblemau a theimlai na fyddent yn hysbysu'r Cyngor a hefyd yr Heddlu am gwynion. Ategodd y Rheolwr Tîm y caiff materion trwyddedu eu hysbysu i'r Cyngor gan yr Heddlu ac na wyddai am unrhyw gynnydd sylweddol mewn cwynion yn erbyn casglwyr metel sgrap, fodd bynnag dywedodd eto y byddid yn trafod y mater hwn gyda'r Heddlu i ddynodi os ydynt yn derbyn cwynion.

Cyfeiriodd Aelod arall at fysgio yng nghanol tref Tredegar a gofynnodd os gellid llunio polisi i symud yr unigolyn gan ei fod wedi achosi niwsans mawr yng nghanol y dref. Ychwanegodd yr Aelod fod cydweithiwr Ward wedi cysylltu â Chyngor Caerffili sydd â pholisi yn ei le ac awgrymodd fod yr Awdurdod yn gweithio gyda Chaerffili i sefydlu polisi ar gyfer Blaenau Gwent.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu nad oes gan Gyngor Caerffili bolisi ac na wyddai am bolisi yn unrhyw un o awdurdodau

| | | |
|---|---|---|
| | Gwent. Mae mater bysgwyr fel arfer yn fwy o broblem mewn awdurdodau dinesig mawr fel Casnewydd a Chaerdydd. Dywedodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu nad oes angen i'r Cyngor gael polisi ar bopeth ac awgrymodd y gellid datblygu canllawiau yn unol ag unrhyw gwynion a dderbyniwyd.<br><br>Dywedodd yr Aelod ei fod yn niwsans a'i fod wedi derbyn nifer o gwynion. Atebodd y Rheolwr Tîm y dylid hysbysu'r Tîm Trwyddedu am y cwynion hyn ac na wyddai fod unrhyw gwynion wedi dod i law yn ddiweddar. Gwyddai'r Aelod fod y bysgiwr wedi achosi llawer iawn o niwsans i yrwyr tacsi ac awgrymwyd fod y swyddog yn siarad gyda'r gyrwyr tacsi yng nghanol y dref neu gyda'r Heddlu. Dywedodd y Rheolwr Tîm y byddid yn holi Heddlu Gwent os derbyniwyd unrhyw gwynion. Dywedodd fod angen bod yn bwyllog yma fel nad oedd y Tîm Trwyddedu yn cael eu hystyried fel bod yn canfasio ar gyfer cwynion, felly ni fyddai'n cysylltu'n uniongyrchol â'r gyrwyr tacsi ond anogodd yr Aelod i ofyn i'r gyrwyr tacsi i hysbysu'r Tîm Trwyddedu yn uniongyrchol am unrhyw broblemau os ydynt yn derbyn adroddiadau pellach am broblemau.<br><br>Cadarnhaodd y Rheolwr Tîm Trwyddedu a Masnachol y byddai'r Tîm Trwyddedu yn codi mater cwynion am fysgio a chasglwyr metel sgrap gyda'r Heddlu i weld os derbyniwyd unrhyw gwynion ac y byddid yn rhoi ystyriaeth i unrhyw waith rhagweithiol yn y meysydd hyn yn y cynllun gwaith ar gyfer 2020/21 yn unol â hynny.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu a Masnachol y cytunwyd yn dilyn trafodaethau gyda'r Cadeirydd y cyflwynir yr Adroddiad Gweithgareddau i'r Pwyllgor ar sail chwe-misol ar ddiwedd Chwarter 4. Ychwanegodd y byddid yn dod ag unrhyw faterion o bwys sylweddol i'r Pwyllgor ar wahân.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nododd y Pwyllgor yr adroddiad gweithgaredd ar gyfer y chwarter hwn. | |
| **No. 5** | **<u>MEYSYDD AR GYFER HYFFORDDIANT/SESIYNAU GWYBODAETH I AELODAU</u>**<br><br>Ni ofynnwyd am hyfforddiant neu sesiynau gwybodaeth i aelodau ar unrhyw faes. | |